Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Crwban Bach**

**Adeilad Dros Blant**
**Stryd Hir**
**Trefdraeth**
**SA42 0TL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

25/5/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Crwban Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal y tu allan i'r ysgol |
| Unigolyn cofrestredig | Elizabeth Davies |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Ionawr 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus ac yn hapus ac mae ganddynt lais da. Maent wedi ymgartrefu, maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn mynegi eu hunain yn dda. Mae'r plant yn annibynnol ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r staff gofal yn deall ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Maent yn garedig ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol i sicrhau bod y plant yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn hapus.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn lân. Maent yn darparu ystod dda o adnoddau a chyfleusterau, tu fewn a thu allan i'r adeilad, er mwyn meithrin medrau datblygiadol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli gwasanaeth sydd wedi'i drefnu'n gymharol dda ac yn dilyn eu polisïau a'u gweithdrefnau'n dda er mwyn bodloni anghenion y plant. Mae partneriaethau yn dda. Tra bod rhai o'r staff gofal yn siarad Cymraeg, Saesneg yw prif iaith y lleoliad. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ynghyd â dau faes i'w gwella, y ceir manylion amdanynt ar ddiwedd yr adroddiad. Bydd y rhain yn cael eu profi yn yr arolygiad nesaf. Rydym hefyd wedi gwneud tri argymhelliad

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus ac mae ganddynt lais da. Maent yn teimlo'n gyfforddus i fynegi eu barn a'u dymuniadau. Caiff y plant gyfleoedd cadarnhaol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Mae'r plant yn dewis gweithgareddau a gofynnir iddynt a ydynt am aros dan do neu symud i'r ardal awyr agored. Mae'r plant yn datgan yn hyderus yr hyn yr hoffent ei wneud.

Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda a dywedwyd wrthym eu bod yn mwynhau treulio amser yn y clwb gyda ffrindiau a’r staff. Mae’r plant yn cael eu cefnogi os oes angen sicrwydd arnynt, mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent yn gyfarwydd â'r drefn arferol.

Mae'r plant wedi ffurfio cyfeillgarwch ac yn cyd-dynnu’n dda â'i gilydd yn ystod gweithgareddau cynlluniedig a sesiynau chwarae rhydd. Mae gan y plant sawl cyfle i ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain. Enghraifft o hyn oedd pan ofynnodd y plant am sialc a gwnaethant gydweithio i lunio cwrs rhwystrau ar darmac yr ardal awyr agored. Buont yn trafod, yn rhannu syniadau ac yn canmol dyluniadau ei gilydd. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff gofal yn dda ac mae'r plant yn ymgysylltu ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion a’r staff gofal.

Mae'r plant yn weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd yn ystod gweithgareddau. Dywedasant wrthym eu bod yn mwynhau gweithgareddau a gwnaethant sôn â chyffro am yr amser y gwnaethant gebabsau ffrwythau a malws melys. Mae'r plant yn dangos annibyniaeth wrth gyrraedd ac wrth iddynt adael y lleoliad trwy osod eu heiddo yn yr ardal ddynodedig, a’i gasglu.

Clywsom syniadau am weithgareddau oedd yn cael eu cynnig megis peintio potiau planhigion a phlannu hadau a sut roedd y plant yn ymateb â'u syniadau eu hunain. Mae enghreifftiau o waith a gweithgareddau'r plant yn yr ystafell sylfaen.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae'r staff gofal yn cadw'r plant yn ddiogel drwy sicrhau eu bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau gan gynnwys arferion hylendid bwyd er mwyn diogelu iechyd a diogelwch y plant. Er enghraifft, mae'r staff gofal yn gwisgo ffedogau a menig wrth weini tost ac arllwys diodydd yn ystod amser byrbryd. Roedd y staff gofal yn paratoi'r holl fyrbrydau a diodydd i'r plant a oedd yn mynychu yn rhwydd. Yn dilyn ein hymweliad, dywedodd y person cofrestredig wrthym ei fod wedi ailgyflwyno cyfleoedd i'r plant baratoi a gweini eu byrbrydau eu hunain. Maent hefyd wedi ailgyflwyno byrbrydau a ffrwythau iach er mwyn hyrwyddo arferion bwyta'n iach ymhellach.

Mae'r staff gofal yn nodi ac yn rheoli risgiau yn weithredol ac yn ymwybodol o bolisi a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad. Darparodd y staff gofal ymatebion priodol i senarios diogelu ac maent yn ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf i ddeddfwriaeth.

Mae gan y staff gofal berthynas hyfryd â'r plant ac maent yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u diddordebau a'u hanghenion. Maent yn gyson ymatebol ac yn adnabod y plant yn dda, gan barchu eu dymuniadau, yn enwedig wrth i'r plant gyrraedd o'r ysgol, lle mae angen lle ar rai ac mae angen rhyngweithio pellach ar eraill. Mae llawer o achlysuron pan fydd y staff gofal yn gofyn i'r plant, 'Beth hoffech chi ei wneud'? Mae'r staff gofal yn frwdfrydig ac yn cymryd llawer o gyfleoedd i ryngweithio, cefnogi a gwrando ar y plant. Mae rhai o'r staff yn siarad Cymraeg ac yn sgwrsio'n hyderus â'r plant, ond Saesneg yw iaith lafar y lleoliad.

Mae'r staff gofal yn ymwybodol o anghenion unigol y plant ac yn darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio a themâu yn cael eu dilyn yn y lleoliad.

| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r lleoliad yn ddiogel a dim ond pan fydd aelod o staff yn ateb y drws y gall y plant ac ymwelwyr gael mynediad i'r adeilad. Mae'r amgylchedd dan do yn olau, yn awyrog ac yn lân ac yn cynnig ystod o fannau ar gyfer gweithgareddau dan do. Mae'r brif ystafell yn cynnig canolfan ddiogel i’r plant a gellir cael mynediad i doiledau a chyfleusterau golchi dwylo yn ddiogel ac yn annibynnol yn y lleoliad.

Mae asesiadau risg cynhwysfawr yn eu lle ac mae'r holl wiriadau diogelwch trydanol a thân angenrheidiol yn gyfredol. Mae polisïau ar waith ar gyfer ymarfer tân a gweithdrefnau tân, fodd bynnag nid ydynt yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd nac yn cofnodi'r wybodaeth yn glir. O ganlyniad, nodir hyn fel maes i'w wella a byddwn yn dilyn trywydd hwn yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn lân ac yn cynnig ystod o adnoddau a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau amrywiol mewn amgylchedd dysgu diogel. Mae'r dderbynfa yn gryno ac yn arddangos yr holl ddogfennau ac offer angenrheidiol, yn ogystal â llyfr ymwelwyr.

Mae'r man chwarae awyr agored yn ddiogel a dim ond pan fydd y staff yn gwmni iddynt y gall y plant gael mynediad. Gwelsom fod gwiriadau awyr agored yn cael eu cynnal cyn i'r plant fynd i mewn i'r man awyr agored caeedig ac mae'r plant bob amser yn cael eu hebrwng yn ôl dan do, os, a phryd y dymunant ddefnyddio'r toiled.

Mae'r adnoddau'n briodol ar gyfer ystod oedran y plant yn y gwasanaeth ac mae strwythur y lleoliad yn cynnig ystafell sylfaen ac ynddynt weithgareddau o ansawdd da yn ogystal ag ystafell ychwanegol ar gyfer chwaraeon.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Gwael

Mae'r person cofrestredig yn gweithio'n galed i gefnogi'r staff ac mae wedi ymrwymo i wella safonau ar gyfer y plant a’r teuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn gymharol drefnus ac mae system cadw cofnodion ar waith, a lle bo angen, mae gwaith papur yn cael ei storio'n briodol. Mae polisïau wedi'u hadolygu eleni ac maent yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae ffeiliau’r staff ar waith, ond nid ydynt yn cynnwys yr wybodaeth a'r dogfennau gofynnol. O ganlyniad, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r person cofrestredig gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn. Dywedodd y person cofrestredig wrthym ei fod yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau anffurfiol gyda'r staff gofal. Dywedodd pob aelod o staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rolau a'u bod yn trafod unrhyw anghenion neu faterion â'r person cofrestredig yn ôl yr angen. Mae newidiadau staff wedi digwydd yn y lleoliad, ond nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cael gwybod am y newidiadau hyn. Rydym wedi cyhoeddi maes i'w wella mewn perthynas â hyn a byddwn yn dilyn trywydd hyn yn yr arolygiad nesaf. Mae’r staff yn cofnodi damweiniau, fodd bynnag nid yw'r holl gofnodion damweiniau yn cael eu cwblhau'n benodol ar gyfer pob plentyn unigol; roedd rhai cofnodion yn cynnwys plant lluosog ac nid yw rhieni/gofalwyr wedi llofnodi ar gyfer pob cofnod.

Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hapus, yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth a bob amser yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth eang. Mae'r adroddiad ansawdd gofal yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir a chaiff adborth gan y plant, y rhieni a’r staff ei gasglu a'i adolygu'n ofalus.

Mae'r person cofrestredig yn cyfathrebu'n dda, ac mae’n cefnogi'r tîm yn y lleoliad. Mae cadw staff yn gyson wedi arwain at ymarferwyr profiadol. Mae’r staff gofal yn cydweithio'n dda ac maent yn effeithiol fel tîm. Cedwir cymarebau staff/plant ac roedd tystiolaeth o hyn ar ddiwrnod yr ymweliad ac yn y cofnodion presenoldeb.

Dywedodd y person cofrestredig wrthym fod gan y gwasanaeth berthynas dda â'r ysgol gynradd gyfagos a'r gymuned, yn ogystal â’r rhieni. Roedd yr adborth gan y rhieni yn gadarnhaol, er iddynt ddweud bod y clwb yn gyfyngedig gan mai dim ond unwaith yr wythnos y mae'n gweithredu; byddent yn gwerthfawrogi adborth pellach a hoffent weld mwy o ffrwythau'n cael eu cynnig amser byrbryd. Ers hynny, mae'r person cofrestredig wedi cynnwys ffrwythau yn ystod sesiynau clwb.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – Cofnodi syniadau'r plant a'u cyflwyno'n weledol;

A2 – Sicrhau bod y rhieni/gofalwyr yn llofnodi'r holl gofnodion damweiniau a chofnodi cofnodion unigol ar gyfer pob plentyn unigol fesul damwain;

A3 – Cofnodi a ffurfioli arfarniadau a sesiynau goruchwylio.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Nid yw ffeiliau’r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth a dogfennau recriwtio.  Dylid sicrhau bod y staff yn addas cyn iddynt ddechrau gweithio yn y lleoliad. | Ni chyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |

| | | |
|---|---|---|
| 38 | Nid ydynt yn cynnal ymarferion tân rheolaidd. Dylid sicrhau y cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd. | Newydd |
| 31 | Mae'r darparwr wedi methu â hysbysu AGC am newidiadau staff. Dylid sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i AGC am yr holl newidiadau staff. | Newydd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 10/08/2022